

CYFARFOD:	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD:	28 Mehefin 2021
AELOD CABINET:	Cynghorydd Gareth Griffith
TEITL:	Y broses ar gyfer adolygu Cynllun Datblygu Lleol
AMCAN:	Adroddiad i egluro'r broses ar gyfer adolygu Cynllun Datblygu Lleol
SWYDDOG CYSWLLT:	Gareth Jones - Pennaeth Adran Cynorthwyol

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi fod angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol 4 mlynedd yn dilyn mabwysiadu. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly, yn unol â'r gofyn statudol y 31 Gorffennaf 2021 ydi'r dyddiad ar gyfer cychwyn y broses adolygu. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno trosolwg o'r camau gofynnol fydd rhaid ymgymryd â hwy wrth adolygu a'r adolygiad dilynol o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Adolygiad statudol		
1	PCPA 2004 (adran 69) a Rheoliad 41	Adolygu'r cynllun statudol yn gyfnodol, a dim mwy na phedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Gellir sbarduno hyn yn gynharach os yw'n gysylltiedig â dyddiadau terfyn y cynllun, amserlenni paratoi cynllun neu'r ACLI yn adolygu cynllun yn wirfoddol.

- 1.2 [Y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynlluniau Datblygu Lleol\) \(Cymru\) 2005 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Lleol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2015](#) sydd yn gosod allan y camau rhaid dilyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol neu Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol. Mae'r rheoliadau yn gosod allan camau gwahanol i ymgymryd ag adolygiad ffurf fer neu adolygiad llawn o'r cynllun ac mae'r camau perthnasol wedi eu gosod allan yn yr adroddiad hwn. Noder fod y ddwy drefn yn dra wahanol ag nid yw yn ddewisol pa un y bydd rhaid dilyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'n glir yr amgylchiadau ar gyfer dilyn naill neu'r llall o'r gweithdrefnau a mae hyn wedi amlinellu yn yr adroddiad isod.
- 1.3 Cyn cychwyn ar adolygiad o'r CDLI mae'n rhaid adolygu'r cynllun presennol a paratoi Adroddiad Adolygu, a mae'r cam cychwynnol yma wedi ei osod allan yn rhan 2 isod. Yr hyn a fydd yn wahanol, wrth adolygu'r cynllun presennol a'r adolygiad dilynol yw nad yw yn broses fydd yn cychwyn o'r cychwyn yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth. Mae'r Cynllun cyfredol, y sail tystiolaeth a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) (sy'n amlinellu perfformiad y CDLI ar y Cyd ers ei fabwysiadu) yn dystiolaeth pwysig y bydd yn cael ei ystyried wrth ymgymryd a'r adolygiad.

2. Cam cychwynnol

Adroddiad Adolygu

- 2.1 Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw edrych ar yr holl dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r CDLI ar y cyd a dod i gasgliad ynglŷn a'r math o adolygiad bydd yn cael ei ddilyn. Gall hyn fod yn adolygiad ffurf lawn sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd, neu adolygiad ffurf fer sydd gyfystyr ag addasu rhannau penodol o'r Cynllun cyfredol.
- 2.2 Dylai adroddiad adolygu cael ei gyhoeddi o fewn 6 mis o'r dyddiad sydd 4 mlynedd o ddyddiad mabwysiadu (sef 6 mis o'r 31 Gorffennaf 2021) fel amlinellwyd o fewn y [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu \(Argraffiad 3\) Mawrth 2020](#) sef erbyn diwedd Ionawr 2022 yn achos y CDLI ar y cyd. Dylai Adroddiad Adolygu fod yn fyr ac yn gryno a dylai amlinellu'r canlynol:
- Pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried i lywio adolygiad o'r cynllun a pham
 - Sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar weledigaeth, nodau ac amcanion y cynllun, gan gynnwys rhoi'r strategaeth ar waith
 - Adolygiad o bob maes pwnc yn y cynllun gan nodi'n glir beth sydd angen ei newid a pha rannau o'r sail dystiolaeth y mae angen eu diweddarau i gefnogi'r newidiadau
 - Goblygiadau i'r rhannau o'r Cynllun na fwriedir ei ddiwygio o ran cydlynid ac effeithlonrwydd y Cynllun yn ei gyfanrwydd.
 - Ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd
 - Archwilio ac esbonio'r cyfleoedd i baratoi CDLIau ar y Cyd/CDLICau ar y Cyd gyda ACLIau cyfagos a chynyddu gweithio traws-ffiniol
 - Casgliadau clir ynghylch pam mae angen dilyn y drefn lawn (sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd), neu'r weithdrefn adolygu ffurf fer (sydd gyfystyr ag addasu rhannau o'r Cynllun cyfredol)
- 2.3 Fel rhan o baratoi'r Adroddiad Adolygu ac wrth baratoi CDLI ar y Cyd diwygiedig mi fydd angen rhoi ystyriaeth lawn i'r materion isod:
- Unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a newidiadau mewn canllawiau'r Llywodraeth megis [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3](#).
 - Newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol - er enghraifft,
 - [Cymru'r Dyfodol : Y Cynllun Cenedlaethol 2040](#) (y fframwaith datblygu cenedlaethol)
 - sefyllfa diweddaraf cynllun Wylfa Newydd
 - effaith ag adfer yn dilyn Brexit a Chofid 19 ar draws ardal y Cynllun,
 - Cynllun Datblygu Strategol fydd yn cael ei baratoi ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf
 - Cais Twf gogledd Cymru,
 - Gwaith ymchwil rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau, Ail Gartrefi – Datblygu polisiau newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks) ac unrhyw waith ymchwil arall perthnasol

- Unrhyw strategaethau sydd mewn lle gan y Cynghorau a sicrhau fod y Cynllun yn cyd-fynd a nhw er enghraifft strategaethau tai, strategaethau datblygu'r economi.
- Adolygu polisiau'r cynllun i weld sut maent yn perfformio ac os oes angen eu diwygio. Mi fydd rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cynllun fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- Mi fydd angen ail edrych ar yr holl asesiadau a phapurau testun a thystiolaeth paratowyd i gefnogi'r Cynllun cyfredol

2.4 Fel amlinellwyd uchod, bydd angen dod i gasgliad ar fath o adolygiad, ac os yw'n adolygiad llawn (h.y Cynllun newydd) neu'n adolygiad ffurf fer. Y sail tystiolaeth i gefnogi'r Adroddiad Adolygu yn bennaf fydd yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, sy'n amlinellu perfformiad y CDLI hyd yn hyn.

3. Sail Tystiolaeth

- 3.1 Sylfaen cynllun datblygu yw'r sail dystiolaeth. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn berthnasol ac yn gymesur â'r materion y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy.
- 3.2 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ni fydd y broses yn cychwyn o'r newydd heb unrhyw dystiolaeth gan fod yna Gynllun mabwysiedig mewn lle. Bydd angen adnabod unrhyw fylchau yn y dystiolaeth bresennol a sicrhau fod y dystiolaeth yn cael ei ddiweddarau. Bydd yr Adroddiadau Monitro Blynyddol yn rhan o'r sail dystiolaeth. Bydd rhaid diweddarau papurau tystiolaeth cefndir hefyd i lywio unrhyw ddiwygiadau i'r CDLI ar y Cyd.

4. Y CAMAU AR GYFER CYNNAL YR ADOLYGIAD LLAWN O'R CYNLLUN

- 4.1 Mae'r camau ar gyfer cynnal yr adolygiad yn ddibynnol ar gasgliadau'r Adroddiad Adolygu. Os yw'r Adroddiad Adolygu'n dod i'r casgliad fod angen adolygiad llawn, yna bydd yn rhaid dilyn y broses sydd yn ofynnol ar gyfer paratoi Cynllun newydd. Yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mae'n rhaid dilyn y camau sydd wedi ei nodi isod. Mae'r amserlenni fel sydd wedi nodi yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ar gyfer adolygiad llawn wedi eu cynnwys yn nhabl 1 isod:

Tabl 1

Camau Adolygiad Llawn		
Cam		Amserlen Ddangosol (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu)
Cam 1	Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau (Rheoliad 9)	Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (yn fyrrach fel arfer)
Cam 2	Safleoedd Posib (Rheoliad 14(2))	Tua 1.5 mlynedd

Cam 3	Opsiynau Strategol a Strategaeth a Ffefrir (rheoliad 14 15)	
Cam 4	Cynllun Adnau (Rheoliad 17)	Tua Blwyddyn
Cam 5	Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 22)	Tua 11 mis yn unol â chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 6	Archwiliad cyhoeddus (Rheoliad 23)	
Cam 7	Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Reoliad 24)	
Cam 8	Mabwysiadu (Rheoliad 25)	
		Cyfanswm amser paratoi'r cynllun tair mlynedd a hanner) yn ogystal ag cyfnod llithrant o dri mis)

Rhoddir isod wybodaeth mwy manwl ynglŷn a'r camau y cyfeirir atynt yn nhabl 1.

Cam 1 - Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau

- 4.2 Mae hwn yn gam statudol sydd wedi ei osod allan yn Rheoliad 9 o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Cytundeb Cyflawni (CC) yn offeryn rheoli prosiect hanfodol, mae'r CC yn gosod yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r cynllun yn dilyn y rheoliadau statudol.
- 4.3 Mae'r CC yn cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n amlinellu sut y gall unigolion, asiantau, sefydliadau ac eraill fod yn rhan o'r broses o lunio'r cynllun a sut a phryd y gallent gyfrannu. Bydd y Cytundeb Cyflawni yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'n rhaid cael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru. Bydd cytundeb gan Lywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni yn nodi cychwyn ffurfiol y broses adolygu. Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo i'r amserlen a amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni. Os bydd angen adolygu'r CC oherwydd llithriad yn yr amserlen, bydd rhaid i hyn cael ei gytuno gan y ACLI a Llywodraeth Cymru. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi 'Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi'r cynllun'
- 4.4 Fel y nodir uchod ni fydd y broses o baratoi cynllun newydd yn cychwyn nes bydd y Cytundeb Cyflawni wedi cael ei baratoi a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y cam yma mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi cyfnod o 3.5 mlynedd er mwyn paratoi'r Cynllun. Fe fydd angen adlewyrchu'r amserlen hyn o fewn Cytundeb Cyflawni'r CDLI ar y Cyd.

Cam 2 Safleoedd Posib

- 4.5 Wrth baratoi cynllun diwygiedig, yn ddibynnol ar dystiolaeth a gasglwyd wrth baratoi'r Adroddiad Adolygu, efallai y bydd angen adnabod safleoedd ychwanegol neu amgen i'w datblygu. Felly'r cam cyntaf ffurfiol yn y broses yn dilyn cyhoeddi'r CC y bydd galw am safleoedd posib. Mae hon yn rhan bwysig o'r broses llunio cynllun a bydd yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd ddarparu tystiolaeth gadarn i ddangos bod eu safleoedd yn gynaliadwy, yn gallu dod yn ei flaen ac yn hyfyw. Noder, yn ystod y cyfnod hwn y dylid cyflwyno safleoedd, oherwydd mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy'n dod ymlaen y tu allan i'r broses yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun. Gwneir yn glir nad yw cyflwyno safle yn golygu'n awtomatig bod safle'n addas i'w ddatblygu a'i gynnwys yn y cynllun. Mi fydd cyfle i gyflwyno sylwadau am unrhyw safle sydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei ddynodi yn ystod ymgynghoriadau statudol sydd yn cael ei nodi yn gam 3 a 4 isod.

Cam 3 Opsiynau Strategol a Strategaeth a Ffefrir

- 4.6 Wrth ddatblygu'r Strategaeth a Ffefir mi fydd yn hanfodol cael mewnbwn y cyhoedd wrth ddatblygu'r sail tystiolaeth, opsiynau strategol, strategaeth a chynigion cysylltiedig, gan gynnwys safleoedd ymgeisiol. Wrth ddatblygu opsiynau mi fydd yn bwysig sicrhau ei fod nhw yn ddilys, yn rhesymol, adlewyrchu'r dystiolaeth sydd wedi eu casglu a materion/amcanion y cynllun ag yn diwallu anghenion yr ardal, bod tystiolaeth y gallant gael eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun, cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, ategu mentrau rhanbarthol neu leol a bod yn hyblyg a chynaliadwy. Dylai ACLlau ystyried pa mor briodol yw'r opsiynau a ystyriwyd yn flaenorol, gan gynnwys dewisiadau amgen newydd.
- 4.7 Fel amlygir uchod, ni fydd adolygiad o'r CDLI yn golygu cychwyn o'r cychwyn. Mae'r broses adolygiad yn ymwneud ag ail ddefnyddio a dilysu'r dystiolaeth bresennol ynghyd a llenwi bylchau yn y dystiolaeth ynghyd a datblygu opsiynau newydd. Mi fydd y ddogfen yn nodi'r lefelau twf cyffredinol, safleoedd allweddol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun (gan gynnwys asesiad hyfywedd). Mi fydd cynnwys y ddogfen yn ymateb i'r materion a godwyd yn yr Adroddiad Adolygu'r a'r dystiolaeth sydd wedi ei gasglu.
- 4.8 Mi fydd y strategaeth a ffefrir yn destun ymgynghoriad statudol, mi fydd hyn yn gyfle i'r cyhoedd, rhan ddeiliad, asiantau ag eraill sydd efo diddordeb efo'r broses o lunio'r CDLI cael rhoi eu barn.
- 4.9 Mi fydd yn angenrheidiol sicrhau bod ystyriaeth i'r cyd-destun cyfredol ardal y cynllun a bod y ddogfen yn adlewyrchu hyn. Bydd rhaid ystyried unrhyw newid mewn deddfwriaeth, newidiadau i bolisi cenedlaethol a nodi pa bolisiau nad ydynt/sydd wedi bod yn effeithiol. Amlinellir egwyddorion allweddol o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu isod.
- Nodi'r materion, heriau a sbardunau allweddol ar gyfer yr ardal (agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol) gan gynnwys gofynion strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Gwerthuso a yw'r materion allweddol ar gyfer y cynllun mabwysiedig yn berthnasol o hyd, i ba raddau y mae materion newydd wedi codi.

- Nodi gweledigaeth ar gyfer y cynllun, sy'n unigryw i amgylchiadau lleol, gydag amcanion trosfwaol sy'n ymateb i'r materion allweddol.
- Rhaid i'r Strategaeth a Ffefrir basio'r prawf porth a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru gan ymgorffori'r dull Creu Lleoedd a'r drefn chwilio am safle, strategaeth ofodol a hierarchaeth anheddau sydd wedi'u mynegi'n glir, yn seiliedig ar rôl a swyddogaeth lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, ffactorau angen a chyflenwi a datblygu cynaliadwy.
- Diffinio graddfa arfaethedig twf poblogaeth, tai a chyflogaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r opsiynau twf amrywiol, nodi sut caiff ei gyflawni, e.e. ystod eang o gydrannau (ymrwymiaid/hap-safleoedd/safleoedd bach/dyraniadau ac ati)
- Mynegi lefelau tai a thwf economaidd cyflym yn yr hierarchaeth aneddiadau a lleoedd.
- Safleoedd/ardaloedd twf allweddol i gyflawni'r cynllun wedi'i nodi'n ofodol ar Fap Cynigion, wedi'i ategu gan egwyddorion prif gynllun, diagramau cysyniad a Map Cyfyngiadau.
- Amseru/camau cyflwyno cyffredinol ar gyfer tai a thwf economaidd, gan gynnwys seilwaith.
- Polisiâu strategol allweddol i gyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth.
- Polisiâu rheoli datblygiad (wedi'u cadw/diwygio o'r cynllun mabwysiedig).
- Asesiadau hyfywedd ar gyfer pob safle, gydag arfarniadau manwl ar gyfer safleoedd allweddol.
- Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w paratoi a'u blaenoriaethu.

Cam 4 - Cynllun Adnau

- 4.10 Y Cynllun Adnau ydi'r cynllun cyflawn a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio. Mi fydd yn cynnwys y strategaeth, amcanion strategol, polisiâu rheoli datblygu, dynodiadau ar gyfer datblygu a fframwaith fonitro. Bydd yn ofynnol i'r cynllun adneuo fynd i'r afael â'r materion a'r amcanion allweddol a nodwyd trwy'r camau blaenorol, ymateb i'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriadau blaenorol ag a amlinellwyd uchod a bydd yn ofynnol iddo gael ei gefnogi gan sail dystiolaeth gadarn. Mi fydd mapiau cynigion a mapiau manwl yn rhan o'r Cynllun Adnau bydd y mapiau yma yn adnabod y holl ddynodiadau tai a chyflogaeth.
- 4.11 Y Cynllun Adnau yw'r cynllun y mae'r Cynghorau yn ei ystyried yn gadarn (sy'n cwrdd â'r profion cadernid a nodir yn atodiad 1) ac y maent yn bwriadu eu cyflwyno i'w archwilio.
- 4.12 Bydd y Cynllun Adnau yn destun cam ymgynghori statudol (o leiaf 6 wythnos). Mi fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yma yn gyfle rhoi sylwadau ar gynnwys y ddogfen fydd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth i gael ei archwilio. Bydd y sylwadau a dderbynnir yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau a dogfennaeth ategol i Lywodraeth Cymru.

Cam 5 - Cyflwyno

- 4.13 Ymysg ystyriaethau eraill, cyn cyflwyno, fe fydd angen sicrhau fod gennym sail tystiolaeth gyfredol, ystyried os oes angen ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adnau neu os oes ganddynt hwy oblygiadau i'r Cynllun. Pan gyflwynir y Cynllun i Lywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiad Annibynnol fe fydd angen cyhoeddi'r cam yma a sicrhau fod y dogfennau perthnasol ar gael.

Cam 6 - Archwiliad Cyhoeddus

- 4.14 Bydd Arolygydd Annibynnol yn cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymgymryd â'r archwiliad annibynnol o'r CDLI ar y Cyd. Pwrpas yr Archwiliad yw ystyried os yw'r Cynllun yn gadarn ac wedi ei selio ar dystiolaeth gadarn a chywir. Bydd yr Arolygydd yn cael ei gefnogi/chefnogi gan Swyddog Rhaglen a fydd yn gyflogedig gan yr ACLI. Y Swyddog Rhaglen yw'r cyswllt rhwng yr ACLI, y cyfranogwyr a'r Arolygydd. Bydd yn gweithredu'n annibynnol o'r ACLI ac yn derbyn arweiniad ac yn adrodd i'r Arolygydd.
- 4.15 Yr Arolygydd sydd yn gosod amserlen ar gyfer y gwrandawiadau, a bydd y sesiynau yn seiliedig ar themâu'r CDLI ar y Cyd. Efallai y bydd yr Arolygydd angen derbyn datganiadau ysgrifenedig cryno gan gyfranogwyr a chyrff yn cymryd rhan yn y gwrandawiadau. Yr arolygydd fydd yn penderfynu pwy mae ef/hi yn dymuno ei wahodd i'r gwrandawiadau. Bydd sylwadau ysgrifenedig yn cael yr un faint o ystyriaeth gan yr Arolygydd â'r rhai a wneir ar lafar yn yr archwiliad.

Cam 7 - Adroddiad yr Arolygydd

- 4.16 Fe fydd Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion penodol gan gynnwys nodi'r angen i wneud diwygiadau i'r Cynllun cyn ei fabwysiadu. Rhaid pwysleisio fod casgliadau'r Arolygydd yn ei adroddiad yn rhwymol a bydd rhaid i'r ACLI eu derbyn a diwygio'r CDLI yn unol â hwy.

Cam 8 - Mabwysiadu

- 4.17 Mae'n ofynnol fod yr ACLI yn mabwysiadu'r CDLI o fewn cyfnod o 8 wythnos o dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. Bydd y CDLI yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yng Nghyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i'w fabwysiadu. Yn dilyn ei fabwysiadu, y CDLI fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau cynllunio.

5. Asesiadau Effaith

- 5.1 Fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI ar y Cyd fe fydd yn ofynnol cydymffurfio a'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd. Fel rhan o'r broses adolygu fe fydd rhaid ail-weld a'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun mabwysiedig a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Yn unol â deddfwriaeth fe fydd asesiad o'r effaith posib y CDLI ar y Cyd ar yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd.
- 5.2 Yn ogystal â'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd, bydd yn ofynnol dangos sut mae'r CDLI ar y Cyd yn cyfrannu tuag at amcanion y Ddeddf Llesiant a'r 5 ffordd o weithio sydd wedi cael eu hadnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan hanfodol o ddatblygiad/adolygiad y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd.

5.3 Bydd rhaid ymgymryd ag Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLI ar y Cyd er mwyn pennu os yw'r polisiau a'r dynodiadau a gynhwysir yn y Cynllun yn debygol o effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

5.4 Bydd hefyd yn ofynnol cynnal Aseiad o Effaith a'r Cydraddoldeb ynghyd ac Aseiad o Effaith ar Iechyd.

6. Y CAMAU AR GYFER CYNNAL YR ADOLYGIAD FFURF FER

6.1 Os yw'r Adroddiad Adolygu (yn dilyn y drefn wedi ei osod allan yn adran 2) yn dod i'r casgliad mai adolygiad ffurf fer ydi'r ffordd briodol ymlaen, mi fydd angen dilyn y camau sydd wedi ei osod allan yn nhabl rhif 2 isod sydd gydag amserlen byrrach na'r adolygiad llawn:

Tabl 2

Camau Adolygiad Ffurf Fer		Amserlen Ddangosol (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu)
Cam 1	Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau (Rheoliad 9)	Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (yn fyrrach fel arfer)
Cam 2	Adroddiad Adolygu Rheoliad 26A (1) (Rhan 4A)	Hyd at 6 mis
Cam 3	Galw am Safleoedd Posib (Dibynnol ar gasgliadau'r AA) (Rheoliad 26A (6))	
Cam 4	Cynllun Adnau (Rheoliad 26B)	
Cam 5	Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 22)	Tua 6 mis yn unol a chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 6	Archwiliad cyhoeddus (Rheoliad 23)	
Cam 7	Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)	
Cam 8	Mabwysiadu (Rheoliad 25)	
		Cyfanswm amser paratoi'r cynllun blwyddyn a hanner (yn ogystal ag cyfnod llithrant o dri mis)

Rhoddir rhagor o wybodaeth am y camau unigol isod:

Cam 1 Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau

6.2 Mae hyn yn dilyn yr un drefn sydd wedi nodi ym mharagraffau 4.2-4.4

Cam 2 Adroddiad Adolygu

6.3 Yn wahanol i'r broses o adolygiad llawn y cam cyntaf yn dilyn cyhoeddi'r CC bydd ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu. Mi fydd angen ystyried unrhyw sylwadau sydd yn cael ei dderbyn fel rhan o'r ymgynghoriad yma a pharatoi adroddiad ymgynghoriad cychwynnol a gwneud unrhyw newidiadau sydd angen i'r Adroddiad Adolygu a'i gyhoeddi mor fuan ag sydd yn ymarferol. Os mae Adroddiad Adolygu yn dod i'r casgliad fod angen dynodiadau newydd wedyn y bydd angen galw am safleoedd posib. Sef cam 3 isod. Os na fydd angen rhagor o dynodiad yna felly mi fydd yn symud ymlaen i cam 4 y cynllun adneuo. Yr hyn a sydd yn wahanol yn y broses ffurf fer ydi Does dim cam opsiynau strategol a strategaeth a ffeirir yn y broses o adolygiad ffurf fer.

Cam 3 Galw am Safleoedd

6.4 Yn dilyn yr union broses ac sydd wedi nodi uchod.

Camau 4 – 8

6.5 Mae'r Camau yma yn dilyn yr un broses a'r rhai sydd wedi nodi yn y broses o Adolygiad Llawn.

6.6 Rhaid nodi fod y weithdrefn adolygiad ffurf fer yn destun mwy o risg o ran heriau gweithdrefnol. Er Enghraifft, os mae cwmpas yr adolygiad yn mynd tu hwnt i hynny sydd wedi cael ei amlinellu yn yr Adroddiad Adolygu, /neu os mae polisi cenedlaethol newydd yn golygu y bydd angen gwneud newid sylweddol i'r Cynllun cyfredol sydd ddim wedi cael ei amlygu yn yr Adroddiad Adolygu ac felly yn mynd a'r adolygiad yn fwy eang.

6.7 Mae'n bwysig amlygu fod Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi: 'dim ond os nad yw'r materion a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau ymgymryd â'r weithdrefn adolygu llawn y dylid ystyried y weithdrefn adolygu ffurf fer.

6.8 Hynny ydi os fydd casgliadau'r Adroddiad Adolygu'n yn deud y canlynol:

- Dangos bod y strategaeth bresennol yn dal i fod yn gadarn
- Dangos nad oes angen newidiadau i'r strategaeth neu unrhyw ran ohoni
- Nad oes angen paratoi cynllun neu rannau o'r cynllun a fyddai'n dra gwahanol i'r cynllun mabwysiedig.
- Nad oes angen cynnig newidiadau sy'n sylweddol o ran cwmpas, nifer a graddfa

7. Casgliad

7.1 Mae'r adroddiad uchod yn amlygu'r broses o baratoi Adroddiad Adolygu. Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw dod i gasgliad ar y drefn adolygiad a fydd angen ymgymryd.

Ymhellach fe osodir allan y drefn statudol sydd yn ofynnol i'w ddilyn wrth ymgymryd ag adolygiad llawn neu adolygiad ffurf fer o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Atodiad 1: Profion Cadernid

Tabl 27: Profion Cadernid

Gofynion Paratoi:

- A yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLLau, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau AAS, Arfarniad o Gynaliadwyedd, HRA ac ati?)
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn y drefn honno)

Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas? (A yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)

Cwestiynau

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'n ystyried y Nodau Llesiant?
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?
- A yw'n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?
- A yw'n gydnaws â chynlluniau ACLLau cyfagos?
- A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
- A yw'r ACLI wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth?

Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Cwestiynau

- A yw'n benodol i'r ardal leol?
- A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisiâu'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir ac a oes ganddo ffocws?

Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Cwestiynau

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?
- A fydd y datblygiad yn hyfyw?
- A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?